# Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD GWENER, 6ED RHAGFYR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

(Am fyneidad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Aled Jones-Griffith | Grŵp Llandrillo Menai |
| Joe Yates | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd hyd Cyfarfod Blynyddol nesaf y Bwrdd.

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd hyd Cyfarfod Blynyddol nesaf y Bwrdd, os yw’r angen yn codi.

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION — 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

## 7. CAIS AM NEWID Y PROSIECT CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU — 12 - 14

David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) i gyflwyno’r adroddiad.

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o’r fath heb ei chyhoeddi. Mae’r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o’r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau’r cyrff a’r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a’r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i’r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 9. PARC BRYN CEGIN, BANGOR - ACHOS BUSNES AMLINELLOL

David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) a Margaret Peters (Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo) i gyflwyno'r adroddiad.

## 10. CAIS AM NEWID Y PROSIECT ANTURIAETHAU CYFRIFOL

Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf) a Dafydd Jones (Rheolwr Prosiect Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) i gyflwyno'r adroddiad.

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**08/11/2024**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Is-gadeirydd), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Dave Hughes (Cyngor Sir Y Fflint) a Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Ymgynghorwyr – Yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam), Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) a Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd) Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)

Swyddogion yn bresennol – Siwan Glyn (Archwilio Cymru)

Awdurdod Lletya - Iwan G Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru – Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) a Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Sylwedydd Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Sylwedydd Llywodraeth y DU).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd)
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Elliw Hughes (Uchelgais Gogledd Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod a chroesawu'r Athro Joe Yates i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) ar gyfer Eitem 7 oherwydd ei phenodiad fel Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth, yn dilyn cyflwyno rhan o'r Adroddiad.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Medi 2024 fel rhai cywir.

**5. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2024 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cyllid Statudol.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwywyd:**

- **Adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru ar gyfer y BUEGC.**
- **Datganiad o Gyfrifon terfynol y BUEGC (ôl archwiliad) am 2023/24.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynir yma'r fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2023/24. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 'ISA260' Archwilio Cymru.

**TRAFODAETH**

Cadarnhawyd bod y Datganiad Cyfrifon blynyddol a gyflwynwyd yn yr Adroddiad wedi cael eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol. Ymhelaethwyd bod hyn wedi cael ei wirio gan Archwilio Cymru, sef archwilwyr allanol y Bwrdd Uchelgais.

Eglurwyd bod y wybodaeth a gyflwynwyd o fewn yr Adroddiad wedi cael ei rannu gyda'r Bwrdd eisoes pan gyflwynwyd Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf y Cydbwyllgor ar gyfer 2023/24 (17 Mai 2024) ac wrth gyflwyno Datganiad drafft o'r Cyfrifon (19 Gorffennaf 2024).

Adroddwyd bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon eleni. Eglurwyd bod hyn yn cael ei gadarnhau wedi i'r Bwrdd gyflwyno Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru yn seiliedig ar y Datganiad Cyfrifon. Pwysleisiwyd yr angen i'r Is-gadeirydd a'r Swyddog Cyllid Statudol i arwyddo'r llythyr a'i gyflwyno i'r archwilwyr.

Tynnwyd sylw at gywiriad a nodwyd o fewn Adroddiad yr archwilwyr (ISA260) yn Atodiad 3. Cadarnhawyd mai newid i eiriad y Datganiad Cyfrifon yw hyn ac nid yw'n effeithio'r wybodaeth ariannol.

Diolchwyd i holl swyddogion Archwilio Cymru ac Adran Cyllid Cyngor Gwynedd am eu gwaith o baratoi'r Datganiad o Gyfrifon.

Derbyniwyd ymholiad ar dabl sy'n crynhoi taliadau ac incwm rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gan fanylu ar yr arian a oedd yn ddyledus o'r Bwrdd Uchelgais i Brifysgol Wrecsam. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol bod y taliad hwn sy'n ddyledus i'r Brifysgol yn ymwneud ag arian grant cyfalaf ar un o brosiectau'r Bwrdd Uchelgais. Atgoffwyd bod y wybodaeth a welir yn y tabl yn

crynhoi'r wybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bod yr arian dyledus wedi cael ei dalu yn fuan yn y flwyddyn ariannol hon (2024/25).

**6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 2 2024/25**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD**

- **Ystyriwyd a nodwyd Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i ddiweddaru.**
- **Cymeradwywyd cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd Uchelgais, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Rhoddwyd diweddariad ar gynnydd Rhaglenni'r Bwrdd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan fanylu ar y prif ddatblygiadau canlynol:

- **Rhaglen Ynni Carbon Isel** - Atgoffwyd bod Achos Busnes Amlinellol 'Cydnerth' wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud i gryfhau sefyllfa'offtake' ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi gyda Memorandwm o Ddealltwriaeth yn ei le er mwyn symud y prosiect ymlaen. Cadarnhawyd bod diddordeb sylweddol ym mhrosiect 'GwerthwchiGymru' fel rhan o gynllun Ynni Lleol Blaengar.
- **Rhaglen Tir ac Eiddo** - Eglurwyd bod datblygiadau cadarnhaol i'w gweld ym mhrosiectau Warren Hall, Porth y Gorllewin, Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Parc Bryn Cegin a Phorth Wrecsam. Cydnabuwyd bod oediad i'w weld ym mhrosiectau Porth Caergybi a Stiwdios Cinmel ac bod y prosiectau yn ymddangos yn goch ar y Gofrestr Risg.
- **Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch** - Sicrhawyd bod y gwaith o adeiladu Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn datblygu'n dda gydag ymgyrch caffael pellach ar gyfer y prosiect wedi lansio. Atgoffwyd bod yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024 ac mae'r prosiect yn gweithio tuag at arwyddo'r Cytundeb Cyllid Grant.
- **Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth** - Cadarnhawyd bod prosiect Antur Gyfrifol yn parhau i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol er mwyn ei gyflwyno i'r Bwrdd. Nodwyd bod Achos Busnes Llawn y Rhwydwaith Talent Twristiaeth gan y Bwrdd ym mis Medi 2024. Cydnabuwyd bod prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn parhau i ymddangos yn goch ar y gofrestr risg ac yn ystyried opsiynau yn dilyn adborth ar eu harolygol amgylcheddol.
- **Rhaglen Ddigidol** – Tynnwyd sylw at ddatblygiadau ymgysylltu'r prosiect Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol '4G+' yn ddiweddar. Atgoffwyd hefyd bod Achos Busnes Amlinellol 'Di-wifr Uwch' ac Achos Cyfiawnhad Busnes prosiect LPWAN wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd yn y misoedd diwethaf.

Cadarnhawyd nad oes newid mewn sgôr ar gyfer Cofrestr Risg Portffolio Cynllun Twf Gogledd Cymru.

## 7. DIWEDDARIAD SWYDDOGAETHAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – TROSGLWYDDO I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio a Phrif Swyddog Cyngor Sir Ynys Môn.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyniwyd diweddariad ar y gwaith i sefydlu CBC y Gogledd, gan gynnwys trosglwyddo'r Cynllun Twf a symud ymlaen ar dasgau sy'n ofynnol i gyflawni swyddogaethau statudol y CBC.**
2. **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i gytuno ar raglen a dyddiad trosglwyddo ddiwygiedig gyda'r Awdurdodau Lleol a phartneriaid Addysg Uwch ac Addysg Bellach o fewn y dyddiad targed o 31 Mawrth 2025.**
3. **Cymeradwyo bod y trefniadau dros dro i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr Dros Dro yn cael eu hymestyn tan 31 Mawrth, 2025 neu'r dyddiad trosglwyddo, yn dibynnu p'un fydd gyntaf.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2021/mis Ionawr 2022, cytunodd Cabinet a Phwyllgorau Gweithredol pob un o'r chwe Awdurdod Lleol a phartneriaeth ehangach y Bwrdd Uchelgais, mewn egwyddor, y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) trwy gytundeb dirprwyo i'r CBC. Mae'r fframwaith statudol a sefydlu'r CBC yn gofyn am y ffocws a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu'r gwaith trosglwyddo. Mae angen cymeradwyaeth gan yr holl sefydliadau partner a Llywodraethau cyn y gellir cwblhau'r trosglwyddo.

Mae swyddogaethau a threfniant partneriaeth y Bwrdd Uchelgais wedi'u nodi yn GA2 ar hyn o bryd. Mae hyn hefyd yn cynnwys y trefniadau llywodraethu a'r trefniadau hirdymor ar gyfer cefnogi'r Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ariannol i gyflawni'r cynllun. Dan y cytundeb dirprwyo arfaethedig, byddai'r Cynllun Twf a'r trefniadau ariannol cysylltiedig yn trosglwyddo i'r CBC a byddai'n ymateb yn rhannol i'r pŵer a roddir i'r CBC i hyrwyddo lles economaidd rhanbarthol. Mae'r swyddogaeth Llesiant Economaidd hon yn cyd-fodoli â phwerau datblygu economaidd pob un o Gynghorau'r Gogledd. Bydd angen i bartneriaid rhanbarthol gytuno a chyd-ddatblygu sut bydd y swyddogaethau hyn yn gweithio'n rhanbarthol, fel rhan o sefydlu'r CBC. Mae angen cydnabod hefyd bod y penderfyniadau gwreiddiol mewn egwyddor i drosglwyddo'r Cynllun Twf wedi'u gwneud pan oedd cysyniad y CBC yn dal i gael ei ddatblygu. Felly, bydd yr union fodel ar gyfer y trefniadau trosglwyddo yn cael ei gytuno gyda phartneriaid fel rhan o'r camau nesaf.

Er mwyn gweithredu'r trosglwyddiad, mae yna faterion cyfreithiol allweddol sy'n cael eu Datblygu

1. Cytundeb gyda'r Llywodraethau ar drosglwyddo (novation) y Cynllun Twf drosodd i'r CBC a'r model ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r egwyddor i drosglwyddo wedi derbyn cefnogaeth y llywodraeth.
2. Penderfyniadau ffurfiol gan y partïon i Gytundeb Llywodraethu 2 (GA2) a'r CBC i gytuno i drosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf a swyddogaeth y Corff Atebol i'r CBC.

3. Creu Cytundeb Cydweithio rhwng partïon GA2 a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y cytundeb yn olynydd i GA2 ac mewn sawl ffordd bydd yn adlewyrchu'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, bydd statws corfforaethol gwahanol y CBC yn golygu y bydd angen mynd i'r afael ag agweddau ar y cytundeb mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r ffaith bod GA2 wedi creu Cyd-bwyllgor o'r Cynghorau Cyfansoddol gyda phwerau dirprwyedig tra bod y CBC (er gwaethaf ei enw) yn gorfforaeth statudol. Y nod, fodd bynnag, yw adlewyrchu a cheisio ailadrodd y trefniadau partneriaeth o fewn y model trosglwyddo a darparu fframwaith cytundebol i sicrhau bod y Cynllun Twf yn cael ei gyflawni a pharhau ag ymrwymiadau ariannol y partneriaid i'r prosiect.

Gosodwyd 1af Tachwedd fel dyddiad targed dros dro ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Bwrdd Uchelgais i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Roedd y dyddiad hwn yn dibynnu ar dderbyn y cymeradwyaethau gofynnol ar gyfer trosglwyddo ac mae nifer o gamau a phenderfyniadau allweddol yn parhau heb eu gwneud. Mae’r rhain yn cynnwys:

- cytundeb ar y model llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- cylchredeg a chytuno ar y GA3 drafft (olynydd GA2) i wneud trefniadau codio.
- dod i gytundeb novation ar gyfer y Cynllun Twf gyda Llywodraeth Cymru.
- cwblhau cytundeb partneriaeth GA3.

Felly mae dyddiad trosglwyddo o 1af Tachwedd, 2024 yn anghyraeddadwy.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod y drafodaeth yn cyflwyno diweddariad pellach ar y broses o sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), gan fanylu ar drosglwyddo rhai o swyddogaethau’r Bwrdd Uchelgais i’r CBC.

Atgoffwyd bod Aelodau Cabinet a Prif Swyddogion yr Awdurdodau Lleol wedi cytuno i’r trosglwyddiad hwn mewn egwyddor gyda phartneriaid y Bwrdd. Nodwyd bod 1af Tachwedd 2024 wedi cael ei ystyried fel dyddiad targed ar gyfer y trosglwyddiad, yn ddibynnol ar dderbyn cymeradwyaeth ohono gan holl bartneriaid y Bwrdd, llunio cytundebau cyfreithiol a’r angen i gwblhau camau angenrheidiol. Cydnabuwyd nad oedd modd trosglwyddo ar y dyddiad drafft hwn.

Adroddwyd ar amserlen trosglwyddo ddiwygiedig ar gyfer trosglwyddo’r Cynllun Twf. Cadarnhawyd bod opsiynau yn cael eu hystyried ac anelir at sicrhau cyflawni’r holl gamau priodol er mwyn galluogi’r trosglwyddiad erbyn 31 Mawrth 2025, fan bellaf.

Bu i’r Cyfarwyddwr Portffolio adael y cyfarfod er mwyn i’r Aelodau drafod trefniadau dros dro i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio i ymgymryd â rôl Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC hyd nes 31 Mawrth 2025, neu’r dyddiad trosglwyddo (os yw’r trosglwyddiad yn digwydd cyn y dyddiad hwn).

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw ddatblygiadau cyfreithiol yn codi gan mai estyniad o drefniadau presennol byddai cymeradwyo’r trefniant hwn.

Mynegwyd pryder bod y dyddiad trosglwyddo drafft yn cael ei dynnu’n ôl oherwydd cymhlethdod y camau priodol a bod hyn yn cael effaith ar ddatblygiadau. Gofynnwyd am sicrwydd i’r trosglwyddiad gael ei weithredu mor fuan a bo modd er mwyn gallu cyflogi Prif Weithredwr llawn amser i roi arweiniad i’r CBC.

**8. CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 9 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

**9. DIWEDDARIAD ACHOS BUSNES PORTFFOLIO 2024**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan

**PENDERFYNIAD**

1. **Cymeradwyo diweddariad 2024 Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid blynyddol**

2. **Gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio gyflwyno'r holl ddogfennaeth ofynnol a'r ffurflen cais i newid i Lywodraethau Cymru a'r DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid blynyddol a dirprwyo hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad ag Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, y Swyddog Monitro a'r Swyddog a151, i negodi gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar amseriad dyfarnu'r cyllid ac i wneud unrhyw fân addasiadau ar gyfer y naill lywodraeth neu'r llall.**

3. **Nodi adroddiad Adolygiad Porth ac yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion.**

4. **Cymeradwyo tynnu prosiect safle Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy yn ôl o Gynllun Twf Gogledd Cymru.**

5. **Cytuno ar y dull o ymdrin â phrosiectau sydd mewn risg o ailddyrannu cyllid a gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio gychwyn ar y broses ac adrodd i'r Bwrdd ar y prif bwyntiau penderfynu a nodir yn Atodiad 5.**

6. **Trefnu cyfarfod gyda Gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan sicrhau bod materion strategaethol ychwanegol yn cael eu trefnu o flaen llaw i ddarparu sicrwydd pellach yn Achos Busnes Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd rhesymau o fewn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30yb a daeth i ben am 11:05yb.

______________________________

Cadeirydd

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**6 Rhagfyr 2024**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cais am Newid y prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru |
| **AWDUR:** | David Mathews, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno cais am newid yn ymwneud â'r prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru ar gyfer ystyriaeth gan y Bwrdd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn cytuno mewn egwyddor i'r cais am newid i dderbynnydd y grant ar gyfer prosiect Cyn-Ysbyty Gogledd Cymru a dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar fanylion y cais am newid, gan gynnwys unrhyw welliannau pellach y gallai fod eu hangen i'w cwblhau ac ymrwymo i'r Cytundeb Ariannu Grant.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Cafodd yr Achos Fusnes llawn ei pharatoi ar ran Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ar yr 17 Mai 2024.

3.2. Roedd yr Achos Fusnes Llawn yn nodi mai 'Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd fyddai yn cytundebu'r prosiect drwy ei cwmni daliannol - Jones Bros Ruthin Development Holdings Ltd'.

3.3. Nododd y trafodaethau cychwynnol nad oedd Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd i fod yn barti i unrhyw ddogfennau cytundebol oedd yn ymwneud a'r prosiect. O ganlyniad, cyflwynwyd NWH Ltd gan Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd fel derbynnydd newydd y grant a Cyfrwng at Ddibenion Arbennig (SPV) ar gyfer y prosiect gyda chwmni Jones Bros Ruthin Development Holdings Ltd yn gweithredu fel gwarantwr.

## 4. SEFYLLFA BRESENNOL AC CAMAU NESAF

4.1. Mae'r sefyllfa bresennol ar gyfer y prosiect fel a ganlyn:

- Mae Cytundeb Ariannu Grant Uchelgais Gogledd Cymru wedi symud ymlaen yn dda, ac mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cytuno i gael drafft wedi gytuno cyn y Nadolig.
- Yn Tachwedd 2024 cadarnhaodd Llywodraeth y DU £3m o arian Cronfa Ffyniant Bro Rownd 3 ar gyfer y prosiect.
- Mae Cytundeb Adran 106 (s106) ar hyn o bryd yn cael ei drafod rhwng Cyngor Sir Ddinbych ac NWH Ltd.

4.2. Camau nesaf ar gyfer symud i weithredu'r prosiect:

Bydd angen i'r camau isod gael ei cwblhau er mwyn symud y prosiect if od yn weithredol:

- Cyngor Sir Ddinbych ac NWH Ltd i gytuno safbwynt terfynol ar y Cytundeb 106 a'r amserlen ar gyfer yr amodau cynllunio a chwblhau'r cytundeb;
- Uchelgais Gogledd Cymru i gadarnhau sefyllfa Rheoli Cymhorthdal;
- Uchelgais Gogledd Cymru / NWH Ltd i gytuno ar y Cytundeb Ariannu Grant;
- Cyngor Sir Ddinbych / Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd i gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer yr arian Cronfa Ffyniant Bro.

**5. DUE DILIGENCE**

5.1 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi ymgymryd â diwydrwydd dyladwy fel sy'n bosibl ar dderbynnydd y grant a'r gwarantwr. Mae hyn wedi cynnwys gwiriadau London Gazette, Companies House ac adroddiadau Dunn & Bradstreet. Mae'r holl ymholiadau hyn wedi cadarnhau bod Cyfarwyddwyr derbynnydd y grant a'r gwarantwr yr un unigolion ag Jones Bros Rhuthun (Civil Engineering) Co. Ltd.

5.2 Mae'r ymholiadau wedi cadarnhau nad oes gan yr un o'r cwmnïau hyn unrhyw daliadau na ceisiadau am ddirwyn i ben a wnaed yn eu herbyn. Dylid nodi bod y ddau gwmni hyn wedi'u henwi'n bartïon ar y Cytundeb Datblygu a roddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i NWH Ltd. Byddai Cytundeb Ariannu Grant Uchelgais Gogledd Cymru felly yn cael ei greu yn unol â'r cwmnïau sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Datblygu ac a fydd yn dal y teitl rhydd-ddaliad ar gyfer y safle unwaith y bydd y trawsgludiad gan Gyngor Sir Ddinbych wedi'i gwblhau.

**6. CASGLIAD**

6.1. Mae'r cais am newid hwn yn datrys mater gweinyddol wrth ddrafftio'r Achos Fusnes Llawn a oedd yn gwrthdaro â'r Cytundeb Datblygu a gwblhawyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych a NWH Ltd. Mae'r cais am newid hwn yn sicrhau bod y partïon i Gytundeb Ariannu Grant Uchelgais Gogledd Cymru a'r partïon i'r Cytundeb Datblygu, ac maes o law fod perchnogion cyfreithiol y safle yn gyson.

**7. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r penderfyniad hwn.

**8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

8.1. Byddai cymeradwyo'r cais am newid yn rhoi'r awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Portffolio i gwblhau y trafodaethau ac chytuno i'r Cytundeb Ariannu Grant a hynny mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Swyddog Monitro ac Swyddog Adran 151.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro:**
"Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â mater technegol sy'n gysylltiedig â'r safle a'r dogfennau cyllido – Mae'n unioni buddsoddiad y Cynllun Twf gyda threfniadau cyfochrog Cynghorau Sir Ddinbych. Mae'r penderfyniad arfaethedig yn cael ei gefnogi gan gyngor cyfreithiol."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**
"Rwyf yn fodlon fod y penderfyniad a geisir yn briodol o safbwynt y trefniadau sydd yn eu lle i warchod adnoddau ariannol y Cynllun Twf. Mae sicrhau cysondeb cyfreithiol yn fel a amlinellir uchod yn hanfodol o safbwynt llywodraethiant y prosiect."